**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1315
Ein cyf/Our ref DB/00672/22
Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Rhagfyr 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 30 Tachwedd, ynglŷn â Deiseb P-06-1315: Rhoi'r gorau i'r defnydd o gontractau allanol yng Nghanolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru, Plas Menai.

Ar 20 Medi, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig mewn ymateb i benderfyniad Chwaraeon Cymru i benodi Parkwood Leisure fel y partner strategol a ffefrir ganddo er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy hirdymor ar gyfer Plas Menai.

Drwy gydol y cyfnod ymgynghori ar ei ddull a ffefrir, mae Chwaraeon Cymru wedi ymgysylltu â staff ac undebau ynglŷn â'i gynigion. Cefais innau drafodaethau personol â swyddogion undebau drwy gydol y broses hefyd. Bydd telerau'r cytundeb â Parkwood Leisure yn diogelu telerau ac amodau cyflogaeth holl aelodau'r ganolfan ac yn sicrhau y bydd Plas Menai yn cadw ei statws fel y Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol, gan weithredu ar sail nid-er-elw.

Bydd diogelu a gwella'r Gymraeg a'n diwylliant yn greiddiol i'r berthynas rhwng Chwaraeon Cymru a Parkwood Leisure. Mae'n ofyniad cyfreithiol i Chwaraeon Cymru, fel corff cyhoeddus, gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a bydd hyn yn parhau yn y bartneriaeth newydd. Ni fydd cyfrifoldebau Chwaraeon Cymru yn lleihau yn hyn o beth.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.